GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CILFAN Y GERBYTFFORDD TUA'R DWYRAIN, RHUALLT, SIR DDINBYCH) (GWAHARDD CERBYDAU RHAG CAEL MYNEDIAD) 201-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adrannau 1 (1), 2 (1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd cerbydau, ac eithrio cerbydau awdurdodedig, rhag mynd i mewn i'r gilfan a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn a dirymu, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darn o gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn, Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfannau Amrywiol, Rhuallt – Travellers' Inn, Clwyd) (Cyfyngu ar Aros) 1993.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 28 Hydref 2010, gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â phlan perthnasol, Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn a thros ddirymu'r Gorchymyn yn rhannol, yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yn Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru, Uned 91, Llys Bowen, Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0JE neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, at Lywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth, Tai ac Adfywio, Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3, Y Gangen Orchmynion, Parc Cathays, Caerdydd erbyn 17 Tachwedd 2010. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu wneud sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill, caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datguddio eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi tynnu'n sylw atynt.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn http://new.wales.gov.uk/legislation/subordinate/draftlegislation/dfrtlocalstat/temptraffic/?lang=cy

M D BURNELL
Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3

YR ATODLEN

Y darn hwnnw o'r gilfan sy'n gyfagos â cherbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sydd wedi ei lleoli 120 o fetrau i'r gogledd o'r llwybr troed a adeiladwyd ar linell yr hen Ffordd Rufeinig yn Rhuallt yn Sir Ddinbych.

GELLIR CAEL COPI O'R HYSBYSIAD HWN MEWN PRINT BRAS GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, TRAFNIDIAETH, TAI AC ADFYWIO, IS-ADRAN CYNLLUNIO A LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH 3, Y GANGEN ORCHMYNION, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.

THE A55 TRUNK ROAD (EASTBOUND CARRIAGEWAY LAY-BY, RHUALLT, DENBIGHSHIRE) (PROHIBITION OF ENTRY TO VEHICLES) ORDER 201-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose to make an Order under Sections 1 (1), 2 (1) and (2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to prohibit vehicles, with the exception of authorised vehicles, from entering the lay-by described in the Schedule to this Notice and to revoke, insofar as it relates to the length of trunk road described in the Schedule to this Notice, The A55 Trunk Road (Various Lay-bys, Rhuallt – Travellers' Inn, Clwyd) (Restriction of Waiting) Order 1993.

During a period of 21 days from 28 October 2010, a copy of the proposed Order, together with a relevant plan, Statement of Reasons for the making of the Order and the Order being partially revoked may be inspected free of charge during normal opening hours at North Wales Trunk Road Agency, Unit 91, Bowen Court, Ffordd William Morgan, St Asaph Business Park, St Asaph, Denbighshire LL17 0JE or may be obtained free of charge from the address below.

Objections specifying the grounds on which they are made must be made in writing to the Welsh Assembly Government, Transport, Housing and Regeneration, Transport Planning and Governance Division 3, Orders Branch, Cathays Park, Cardiff by 17 November 2010. Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside the Welsh Assembly Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention.

A copy of the draft Order and Notice can be viewed on the Welsh Assembly Government's website at http://wales.gov.uk/legislation/subordinate/draftlegislation/dfrtlocalstat/permtrafforders/?lang=en

M D BURNELL
Transport Planning and Governance Division 3

SCHEDULE

That length of the lay-by adjacent to the eastbound carriageway of the trunk road situate 120 metres north of the footbridge constructed on the line of the old Roman Road at Rhuallt in the County of Denbighshire.

A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, TRANSPORT, HOUSING AND REGENERATION, TRANSPORT PLANNING AND GOVERNANCE DIVISION 3, ORDERS BRANCH, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE